Cyngor Sir Ceredigion

ADRODDIAD I'R: Pwyllgor Iaith

DYDDIAD: 5 Rhagfyr 2022

LLEOLIAD: Siambr y Cyngor, a Hybrid

TEITL: Prif Ystyriaethau Adroddiad Sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg: Y Gymraeg fel Ffordd o Weithio' 2021-22

PWRPAS YR ADRODDIAD: Cyflwyno prif bwyntiau Adroddiad Sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg, a thynnu sylw at y prif faterion mae angen i Gyngor Sir Ceredigion rhoi ystyriaeth bellach iddynt o ran gweithredu gofynion Safonau'r Gymraeg.

CEFNDIR:

Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cyhoeddi ei adroddiad sicrwydd blynyddol; 'Y Gymraeg fel ffordd o weithio', ar gyfer cyfnod adrodd 2021-22.
I ddarllen yr adroddiad yn llawn, dilynwch y ddolen yma:
Y Gymraeg fel ffordd o weithio: Adroddiad Sicrwydd 2021-22 (comisiynyddygymraeg.cymru)

Pwrpas yr Adroddiad
Mae'r adroddiad yn rhoi barn y Comisiynydd ar y ffordd mae sefydliadau, gan gynnwys Awdurdodau Lleol yn gweithredu gofynion statudol Safonau'r Gymraeg. Mae'r Safonau yn gosod mwy o ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol i gynllunio ar gyfer y Gymraeg a chynyddu'r defnydd ohoni.

Mae'r Comisiynydd eisiau i sefydliadau ddefnyddio'r adroddiad i wella sut maent yn gweithio; gan annog sefydliadau i gymharu eu perfformiad eu hunain yn erbyn y tueddiadau sy'n cael ei nodi yn yr adroddiad.

Ymysg y prif ganfyddiadau
- Mae 32% yn dweud bod y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd wedi cynyddu
- Mae 84% wefannau sefydliadau bellach ar gael yn Gymraeg
- Mae cynnydd wedi bod yng ngallu sefydliadau i ddarparu gwasanaeth Cymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol
  Fodd bynnag:
- Mae 10% o'r siaradwyr Cymraeg a holwyd yn dewis peidio â defnyddio'r Gymraeg, oherwydd diffyg argaeledd gwasanaethau neu rhagdybiaeth na fydd y gwasanaeth o'r un ansawdd a'r gwasanaeth yn Saesneg.
- Caiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn 50% o hysbysiadau am swyddi,
- Mae'r ymchwil yn dangos y byddai mwy o bobl yn debygol o ddefnyddio'r Gymraeg pe bai sefydliadau yn gwella'r ffordd y maent yn hwyluso a gwarantu gwasanaethau Cymraeg.

Y prif faterion y mae angen i Gyngor Sir Ceredigion rhoi ystyriaeth pellach:

1. **Safon Llunio Polisi: Gofyniad i Asesu Effaith ar y Gymraeg**: [tudalen 26-29 yn yr Adroddiad]

Mae'r set o safonau hyn yn gofyn i'r Cyngor sicrhau ei fod yn ystyried cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg â pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth lunio polisi. Mae'r safon hefyd yn gofyn bod y Cyngor yn asesu unrhyw effeithiau y gall penderfyniad polisi gael ar y Gymraeg; gan ystyried cyfleoedd i wneud penderfyniad polisi yn llai andwyol o ran y Gymraeg, ac yn fwy positif yng nghyd-destun cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae'n bwysig bod Swyddogion y Cyngor yn deall eu cyfrifoldebau ac yn sicrhau eu bod yn dilyn y broses o Asesu Effaith Integredig ar unrhyw benderfyniad polisi neu newid gwasanaeth.

Gweithred:
Er mwyn helpu Swyddogion i gynnal asesiadau mwy cynhwysfawr yng nghyd-destun y Gymraeg, bydd Swyddog Polisi Iaith y Cyngor yn bwrw ati i lunio a chyhoeddi canllawiau ar sut i asesu effaith ar y Gymraeg, fel rhan o'r Asesiad Effaith Integredig.

2. **Safonau Gweithredu: Recriwtio a Hysbysebu Swyddi:** [tudalen 31 yn yr Adroddiad]

Mae'r adroddiad sicrwydd yn datgan "Mae profiad defnyddwyr yn ddibynnol ar sefydliadau'n cael digion o staff sy'n siarad Cymraeg, a bod y staff hynny yn y rolau cywir".

Mae'r set o safonau Gweithredu, yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i wneud cynnydd ym maes recriwtio a hysbysebu swyddi; swyddi yn benodol lle mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer cyflawni'r swydd. Mae angen adnabod yn well pa swyddi sydd angen sgiliau Cymraeg, er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn medru darparu gwasanaeth cyflawn yn Gymraeg bob amser.

Mae'r Safon yma hefyd yn cyfeirio at datblygu'r sgiliau sydd gan y gweithlu presennol, drwy adnabod staff sydd efo sgiliau iaith ond nid yn cael eu defnyddio i'w llawn botensial neu ble mae angen datblygu hyder unigolion i ddefnyddio eu Cymraeg gydag eraill.

Yn yr adroddiad rhoddir gwybod y bydd y Comisiynydd yn gosod ffocws pellach ar wella perfformiad o ran asesu sgiliau a gwella ansawdd prosesau recriwtio. Noda'r adroddiad "mae rhybudd yma i gyrff cyhoeddus ystyried a yw eu trefniadau yn ddigonol ym maes recriwtio, datblygu sgiliau'r gweithle ac asesu angen am sgiliau Gymraeg mewn rolau allweddol. Bydd y Comisiynydd yn agor ymchwiliadau ac yn gorfodi newid yn y maes hwn ble mae diffygion yn parhau".

Mae'r Comisiynydd hefyd yn gweld y berthynas sydd rhwng defnyddio'r Gymraeg yn fewnol o fewn sefydliad gyda gwella sgiliau a hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. Felly, bydd y Comisiynydd yn canolbwyntio ar ystyried sut mae sefydliadau

yn datblygu polisïau defnydd mewnol o'r Gymraeg er mwyn annog a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith.

Gweithred:
Mae Swyddog Polisi Iaith y Cyngor wedi datblygu cynllun gweithredu, er mwyn mynd i'r afael a'r meysydd lle mae'r Cyngor yn wan o ran cydymffurfio gyda'r Safonau Gweithredu. Fel rhan o hyn, byddwn yn creu canllaw sut i adnabod sgiliau iaith sydd eu hangen ar gyfer swyddi, ac yn creu siart llif i helpu swyddogion asesu'r angen. Mae cynnal asesiad o'r angen am sgiliau yn y Gymraeg ar gyfer pob swydd wag neu newydd yn ofyniad Safon 136.

Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol er mwyn darparu cwrs Codi Hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle; ar gyfer personau sy'n ddi-hyder neu'n swil o ddefnyddio eu Cymraeg mewn sefyllfa gwaith.

Mae'r Gwasanaeth Democrataidd a'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol wedi cyfarfod, ac ar hyn o bryd yn trafod y cynllun gwaith drafft er mwyn mynd i'r afael gyda'r materion uchod. Rydym wedi cytuno, y byddwn yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn rhoi'r cynllun ar waith. Byddwn yn darparu adroddiadau cynnydd i'r Grŵp Arweiniol yn amserol.

3. <u>Gwasanaethau Allweddol: Ffonio Uniongyrchol:</u> <u>gweler tudalen 14-15: Astudiaeth Achos</u>

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth gynnal gwasanaethau ffôn yn y Gymraeg, a hynny drwy sicrhau bod Gwasanaeth Gofal Cwsmer Clic yn darparu'r cynnig rhagweithiol o wasanaeth Cymraeg o'r cyswllt cyntaf.

Fodd bynnag, yn achlysurol mae angen i Wasanaeth Clic drosglwyddo'r alwad at Swyddogion o fewn gwasanaethau eraill, er mwyn delio ag ymholiadau mwy cymhleth eu natur, sy'n gofyn am wybodaeth dechnegol. Yn yr achosion hyn, fe fydd Gwasanaeth Clic wedi holi a chofnodi dewis iaith y defnyddiwr gwasanaeth; felly mae'n allweddol bod Swyddogion yn talu sylw i'r dewis iaith hwnnw, ac yn ymateb i'r ymholiad yn yr iaith honno.

Gweithred:
Rydym yn cynnig bod Gwasanaeth TG a'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol yn ail ddechrau'r arfer hwn o osod swigen 'iaith gwaith' ar y cyfeirlyfr electronig yn gyfochrog ag enwau staff sy'n newydd i'r Cyngor, ac sy'n medru'r Gymraeg; hyn fel bod modd dod o hyd i siaradwr Cymraeg yn rhwydd a diffwdan oddi ar y system fewnol. Bydd y Swyddog Polisi Iaith yn datblygu canllaw sy'n egluro sut mae holi a chofnodi dewis iaith yn ystyrlon.

Bydd hwn hefyd yn mynd tuag ateb gofynion 'Mwy na geiriau' 2022 – 2027.

4. <u>Hybu Gwasanaethau</u> <u>[tudalen 4 a 5, 10-11 a 23]</u>

Noda'r adroddiad mae 10% o'r siaradwyr Cymraeg a holwyd yn dewis peidio â defnyddio'r Gymraeg oherwydd diffyg argaeledd gwasanaethau neu oherwydd rhagdybiaeth bod ansawdd llai ffafriol i'r gwasanaeth Cymraeg.

Mae'r data yn yr adroddiad yn awgrymu y byddai rhagor o bobl yn defnyddio'r Gymraeg pe bai sefydliadau yn gwneud mwy i hwyluso dewisiadau staff a chwsmeriaid i ddefnyddio'r Gymraeg, ac yn abl i warantu gwasanaethau Cymraeg. Yn gyfredol 16% sy'n dewis gwasanaeth Cymraeg drwy gysylltu â Gwasanaeth Clic Ceredigion, sy'n ffigwr llawer is na'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg o fewn y Sir. Mae angen bod y Cyngor yn cymryd camau i hybu a hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael i ddefnyddio'r Gymraeg; a gan hynny sicrhau ei bod hi'r un mor hawdd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ydw i ddefnyddio'r Saesneg, hyn fel bod hyder gan y cyhoedd a staff yn ei defnyddio.

Rydym eisoes yn gwneud nifer o bethau i hyrwyddo'r laith Gymraeg yn unol â'r Safonau, fel enghraifft:

- Y wefan, nodi'n glir ar dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg drwy ddarparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg.
- Ffurflenni cais am swyddi yn rhoi lle i unigolion nodi eu bod yn dymuno cael cyfweliad neu ddull arall o asesiad yn Gymraeg
- Bydd y Cyngor yn defnyddio dyddiadau penodol yn y Calendr ar gyfer trefnu ymgyrchoedd sy'n hyrwyddo argaeledd gwasanaethau Cymraeg ee Dydd Gŵyl Dewi, Diwrnod Shwmae, Diwrnod Hawliau Comisiynydd y Gymraeg, Dydd Miwsig Cymru – gan dynnu sylw trigolion Ceredigion bod modd defnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu gyda'r Cyngor, a'u hannog i'w defnyddio.
- Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn cymryd rhan yn Diwrnod Hawliau Comisiynydd y Gymraeg ar y 7fed o Ragfyr – diwrnod lle bydd sefydliadau cyhoeddus ar draws Cymru yn gweithio gyda Comisiynydd y Gymraeg i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg a chyfle i siaradwyr Cymraeg ddangos eu bod nhw'n awyddus i ddefnyddio'r iaith yn eu bywyd bod dydd.

Gweithred:
Mae angen sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio gyda'r safonau ar gyfer hybu a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg, ac yn medru amlygu i drigolion Ceredigion, fod gwasanaethau Cymraeg ar gael. Er enghraifft:

- Datgan mewn cyhoeddiadau swyddogol sy'n gwahodd personau i anfon ymateb, bod y Cyngor yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg
- Wrth lunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ffurflen ar wahân, sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg.

5. Effaith diffygion gwasanaethau ar ddefnyddwyr y Gymraeg [Tudalen 22-23]

Mae'r adroddiad yn gosod esiamplau sy'n dangos bod siaradwyr Cymraeg sydd mewn sefyllfa bregus yn cael eu heffeithio yn negyddol pan nad yw sefydliad yn trin eu dewis iaith gyda pharch ac urddas.

Mae gwaith yn mynd rhagddi ar hyn o bryd i ymateb i Cynllun Gweithredu 'Mwy na Geiriau' a bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno cyn hir.

Y Camau Nesaf

Bydd Swyddog Polisi laith yn bwrw ati i sicrhau bod y Cyngor yn gosod trefn weithiau er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio'n llawn gyda'r gofynion, ac yn talu sylw penodol i'r materion hyn sydd wedi codi yn rhan o'r Adroddiad Sicrwydd: Y Gymraeg fel ffordd o weithio: 2021-22.

ARGYMHELLIAD:.
Aelodau'r Pwyllgor Iaith i gefnogi'r gweithredoedd sydd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad.

Enw Cyswllt:	Carys Lewis Morgan
Swydd:	Swyddog Polisi Iaith
Dyddiad yr Adroddiad:	5/12/2022